LGF (S20) 21
Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru)
Local Government Finance (Wales) Bill
Ymateb gan: Y Cynghorydd Marc Jones
Response from: Councillor Marc Jones

Annwyl aelodau

Fel newyddiadurwr sydd wedi gweithio i bapurau lleol yng Nghymru, hoffwn gefnogi un elfen o Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru), sef adran 20.

Byddai hyn yn stopio’r angen statudol i gyhoeddi datganiadau swyddogol mewn o leia un papur lleol yn yr ardal leol.

Dydi hyn bellach ddim mwy na sybsidi drws cefn i gwmniau papurau newydd. Mae’r mwyafrif llethol o bapurau newydd yng Nghymru yn berchen gan gwmniau rhyngwladol enfawr sydd wedi chwalu newyddiaduraeth leol ac wedi gweld eu cylchrediad print hefyd yn chwalu.

Gyda’r twf mewn newyddiaduraeth annibynnol arlein, mae angen diwygio’r ddeddfwriaeth i adlewyrchu sefyllfa newydd.

Mae ffyrdd gwell, rhatach ac mwy effeithiol i gysylltu â pobl leol.

Cefnogaf diwygio’r ddeddf.

Marc Jones
Aelod o’r NUJ ers 39 mlynedd